# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Cynhadledd Fideo Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Ionawr 2021

Amser: 09.03 - 09.18

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Caroline Jones AS |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar AS.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at ychwanegu datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am frechiadau COVID-19, yn ogystal â newid bach i deitl y datganiad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Dywedodd y byddai datganiad ar frechlynnau bob wythnos hyd y gellir rhagweld.

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.45pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw’r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.55pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 2 Chwefror 2021**

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am frechiadau COVID-19 (30 munud)
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2021 (15 munud)

**Dydd Mawrth 9 Chwefror 2021**

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am frechiadau COVID-19 (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol: Gweithio mewn Partneriaeth ar gyfer Gwaith Teg Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth (30 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 24 Chwefror 2021 -**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Grŵp y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 1 Chwefror fel terfyn amser adrodd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### 4.2 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol

Nododd y Pwyllgor Busnes y sefyllfa ddiweddaraf o ran Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd ar ddyddiad cau diwygiedig o 25 Chwefror i'r Pwylgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar

y Bil Cam-drin Domestig. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Cam-drin Domestig at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyda'r un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

### 4.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau diwygiedig o 25 Chwefror i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar Fil Amgylchedd y DU.

## Unrhyw faterion eraill

### Newidiadau i Bwyllgorau

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes fod y grŵp Ceidwadol yn dymuno gwneud newidiadau i’w aelodaeth ar bwyllgorau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r cynigion i wneud y newidiadau hyn ar gyfer y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma ar ôl y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes.

### Cyfarfod Ychwanegol

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes mai'r agenda ar gyfer cyfarfod ychwanegol nesaf y Pwyllgor Busnes ar 1 Chwefror fydd:

- Sub judice;
- Adalw;
- Rheolau Sefydlog Dros Dro;
- Pleidleisiau cyfrinachol mewn Cyfarfod Llawn rhithwir/hybrid;

- Aelodaeth a chydbwysedd Pwyllgorau; a
- Grwpiau – diffiniad.